# Tasg 2

**(Craidd, sbardun 2)**

**POBLOGAETH a POBLOGAIDD**

Edrychwch ar y gair 'poblogaeth'. Tynnwch y gair yn ddarnau, ac fe gewch chi:

**<u>pobl + og + aeth</u>**

- Ystyr **poblogaeth** yw 'nifer y bobl sy'n byw yn rhywle arbennig'. Enw benywaidd yw **poblogaeth**, fel llawer o enwau sy'n gorffen â **–aeth.**
  Mae'r **boblogaeth** wedi codi ers 2000.

- Ystyr **poblog** yw 'llawn pobl'. Ansoddair yw **poblog.** Er enghraifft:
  Mae'r ardal hon yn **boblog** iawn.
  Dinas **boblog** yw Caerdydd.

Nawr, edrychwch ar y gair **poblogaidd**. Os tynnwch chi'r gair hwn yn ddarnau, fe gewch chi:

**<u>pobl + og + aidd</u>**

Ystyr **poblogaidd** yw 'rhywbeth y mae llawer o bobl yn ei hoffi'. Ansoddair yw **poblogaidd**.

e.e. Pwy yw'r canwr mwyaf poblogaidd ar raglen 'The Voice'?

Mae rhai pobl yn drysu rhwng **poblogaeth** a **poblogaidd**.
Rhowch **poblogaeth** neu **poblogaidd** yn y brawddegau hyn. Cofiwch y gall fod angen treiglo, felly mae ychydig o help i chi.

1. Dydy gwisgo bŵts ddim yn b.............................. yn yr haf.
2. Mae llawer o bobl newydd wedi symud i mewn i'r pentref. Mae'r b........................ tua 600 erbyn hyn.
3. Ydy p..................... Caerdydd yn fwy neu'n llai na ph.............................. Llundain?
4. Mrs Hughes yw athrawes fwyaf p............................ yr ysgol.
5. Bachgen p............................. iawn yw Rhodri, ond mae Tom yn llai p..................
6. Os bydd tai'n cael eu hadeiladu yn y dref, bydd y b............................ yn codi.